# Canllaw ar Ddilysu Aml-ffactor ar gyfer Defnyddwyr Allanol

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

Cyf: Seiberddiogelwch

## Cynnwys

Pam mae gofyn i chi wneud hyn? ... 1
Beth fydd ei angen arnoch: ... 1
Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n clicio ar y ddolen rannu? ... 2
Sefydlu Dilysu Aml-ffactor gan ddefnyddio Microsoft Authenticator ... 2
Sefydlu Dilysu Aml-ffactor gan ddilysu drwy Neges Destun: ... 4
Mynediad yn y Dyfodol ... 4
Pwysig – Awgrymiadau Diogelwch (Dilysu Aml-ffactor) ... 5

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r gofynion sy'n caniatáu i ddefnyddwyr allanol gael mynediad diogel at ffeiliau a rennir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n manylu ar y camau angenrheidiol ar gyfer cael mynediad at ddolenni a rennir a sefydlu Dilysu Aml-Ffactor.

## Pam mae gofyn i chi wneud hyn?

Er mwyn diogelu gwybodaeth sensitif, rydym yn gofyn i bob defnyddiwr allanol gwblhau **Dilysu Aml-Ffactor (MFA)** cyn cael mynediad at ffeiliau a ffolderi a rennir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

- Nid yw cyfrineiriau ar eu pennau eu hunain bellach yn ddigonol.
- Mae Dilysu Aml-ffactor yn ychwanegu haen ychwanegol o ddiogelwch gan ddefnyddio'ch dyfais symudol.
- Mae hyn yn helpu i atal mynediad heb awdurdod.

Mae hyn bellach yn ofyniad gorfodol ar gyfer cael mynediad at ddolenni diogel a rennir.

## Beth fydd ei angen arnoch:


1. Ffôn clyfar (Android neu iPhone) neu lechen.
2. Rhyngrwyd neu ddata symudol
3. Mynediad i'ch cyfrif e-bost


## Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n clicio ar y ddolen rannu?

1. Er mwyn i Gyngor Sir Caerfyrddin rannu data a gwybodaeth yn allanol, bydd angen eich cyfeiriad e-bost arnynt i anfon dolen ddiogel atoch.
2. Byddwch yn derbyn y ddolen ddiogel hon trwy e-bost, sy'n rhoi mynediad i chi i'r ffeiliau neu'r ffolderi perthnasol sydd wedi'u rhannu'n ddiogel gyda chi.
3. Cliciwch y ddolen i agor y ffeil neu'r ffolder a rennir.
4. Yna gofynnir i chi fewngofnodi gyda'r un cyfeiriad e-bost y mae'r ddolen wedi'i hanfon ato.
5. Os mai dyma'ch tro cyntaf, bydd gofyn i chi **sefydlu Dilysu Aml-ffactor** cyn parhau.


## Sefydlu Dilysu Aml-ffactor gan ddefnyddio Microsoft Authenticator

1. Gosodwch Microsoft Authenticator ar eich dyfais symudol neu lechen o'r Apple App Store neu Google Play store:





2. Agorwch yr ap a rhowch ganiatâd:






3. Ychwanegwch eich cyfrif e-bost a mewngofnodwch gyda'r côd QR:




4. Cymeradwywch yr hysbysiad prawf a anfonwyd i'ch ap Authenticator:


You will be prompted to **Check your Authenticator app** and may also be shown a number.




On your mobile device, open Authenticator, or tap the **New sign-in request** notification.

Tap or enter the corresponding number, then **Approve**.




5. Mae hyn yn cwblhau'r broses o sefydlu Dilysu Aml-ffactor trwy'r dull Microsoft Authenticator.

## Sefydlu Dilysu Aml-ffactor gan ddilysu drwy Neges Destun:

Os na allwch ddefnyddio'r ap Microsoft Authenticator, gallwch ddewis derbyn côd dilysu trwy neges destun.

1. Pan ofynnir ichi fewnbynnu gwybodaeth ychwanegol, dewiswch Nesaf.
2. Dilynwch y cyfarwyddiadau i ffurfweddu dilysu drwy neges destun fel eich dull Dilysu Aml-ffactor dewisol.
3. Rhowch eich rhif ffôn symudol.
4. Bydd Microsoft yn anfon côd dilysu trwy neges destun.
5. Nodwch y côd dilysu pan ofynnir amdano.
6. Mae hyn yn cwblhau'r broses sefydlu ar gyfer Dilysu Aml-ffactor trwy neges destun.

## Mynediad yn y Dyfodol

Bob tro y byddwch chi'n cyrchu ffeil neu ddogfen sydd wedi'u rhannu gyda chi, bydd angen i chi gymeradwyo hysbysiad ar eich dyfais symudol trwy'r dull rydych chi wedi'i ffurfweddu fel uchod.

## Pwysig – Awgrymiadau Diogelwch (Dilysu Aml-ffactor)

- **Dylech gymeradwyo ceisiadau Dilysu Aml-ffactor dim ond pan fyddwch chi'n disgwyl mewngofnodi**
- **Os ydych chi'n derbyn cais annisgwyl, dylech ei wrthod a'i riportio ar unwaith.**
- **Peidiwch byth â rhannu eich cyfrinair, cyfrinair untro, neu hysbysiadau cymeradwyo gydag unrhyw un, ni fydd sefydliadau dilys byth yn gofyn am y rhain.**